**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Thrawsnewid a Cyngor y Dyfodol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 27 Tachwedd 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd Andrew Stevens (Is-gadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| L S Gibbard | E T Kirchner | M B Lewis |
| A H Stevens | L J Tyler-Lloyd | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sally-Ann Evans | Cyfreithiwr |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Linda Phillips | Swyddog Prosiectau Datblygu Sefydliadol |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Chris Williams | Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): T J Hennegan, S Pritchard a/ac P B Smith

---

## 18 Datgeliadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 19 Cofnodion:

**Nodwyd** cofnodion y Pwyllgor Datblygu Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 25 Medi 2018.

## 20 Y Diweddaraf am y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau.

Cyflynodd y Swyddog Prosiectau adroddiad am y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. Roedd adroddiad wedi'i ddiweddaru wedi'i gylchredeg i'r pwyllgor ac eglurwyd y rhesymau dros yr adroddiad diwygiedig a'r newidiadau data. Tynnodd sylw'n benodol at y gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartal a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Adroddwyd mai'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer staff amser llawn (ac eithrio staff ysgolion) ar 31 Mawrth 2017 oedd 10.9% ar gyfer yr awrdal cymedrig i bob gweithiwr amser llawn perthnasol ac 11.5% ar gyfer yr awrdal canolrifol i weithwyr amser llawn perthnasol.

Adroddwyd am y bandiau cyflog chwartel, a nodwyd yn 2017 mai'r chwartel mwyaf cytbwys o ran y bwlch cyflog rhwng y rhywiau oedd y band cyflog uchaf.

Adroddwyd mai'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer staff amser llawn a rhan-amser (ac eithrio staff ysgolion) ar gyfer 2018 oedd 7.3% ar gyfer yr awrdal cymedrig ac 11.1% ar gyfer yr awrdal canolrifol.

Roedd ffigur cadarnhaol yn dangos bod dynion yn well eu byd na menywod, yn seiliedig ar yr awrdal. Roedd y ffigur wedi lleihau o 2017 i 2018, a oedd yn gadarnhaol.

Adroddwyd hefyd fod y polisi i hyrwyddo gweithio rhan-amser yn effeithio ar y ffigurau ac yn debygol o barhau, oherwydd y gyfran gyfredol o ddynion i fenywod sy'n gweithio amser llawn/rhan-amser. Roedd hi'n anodd cymharu Cyngor Abertawe ag awdurdodau eraill gan nad ydynt yn hyrwyddo gweithio rhan-amser yn yr un ffordd, ac yn gyffredinol, mae'r rhaniad rhwng y rhywiau'n fwy cyfartal.

Argymhellwyd y diweddariadau canlynol i'r cynllun gweithredu ar gyfer 2018-2020: -

- Parhau ag ymdrechion i wella data'r gweithlu, yn enwedig gwirio data a chywirdeb adrodd
- Parhau i adolygu trefniadau contractau oriau heb eu gwarantu (staff achlysurol/dros dro)
- Cynnal AEC ar roi'r golofn gyflog genedlaethol arfaethedig ar waith i sicrhau nad yw'r strwythur cyflog newydd yn achosi niwed i'r naill ryw na'r llall o ran trefniadau tâl.
- Cynnal adolygiad llawn o bolisïau a gweithdrefnau recriwtio er mwyn i'r holl staff sicrhau y glynir wrth yr holl agweddau ar y darpariaethau eraill a nodir yn Rheoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) a bod yr arfer gorau diweddaraf yn glir i bob gweithiwr ac ymgeisydd posib sy'n ymwneud âr broses recriwtio'i ddeall.
- Parhau i adolygu amryfal swyddi a threfniadau contract yn flynyddol.
- Parhau i gyhoeddi data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn adroddiad adolygu cydraddoldeb ac amrywiaeth ar y wefan gyhoeddus.

Dilynwyd hyn gan drafodaeth ar y posibilrwydd o waith pellach i wella'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i wneud hynny.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariad a darparu diweddariadau blynyddol i'r pwyllgor er mwyn monitro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

## 21 Y Diweddaraf am Gaffael.

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol ddiweddariad i'r pwyllgor ar ddiwygiadau i'r Rheolau Caffael Contractau.

Cynhaliwyd y gweithdai caffael gan y pwyllgor ar ddechrau 2018 ac roeddent yn canolbwyntio ar chwalu'r rhwystrau ar gyfer busnesau lleol sy'n gwneud cais am

gontractau lleol ac yn eu hennill. Yn dilyn y gweithdy, gwnaed nifer o argymhellion a oedd yn cynnwys diwygiadau i'r Rheolau Caffael.

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Masnachol fod y rheolau diwygiedig yn mynd drwy'r broses gymeradwyo ar hyn o bryd ac y byddent yn cael eu rhoi ar waith unwaith y byddai'r broses gymeradwyo wedi'i chwblhau. Roedd y rheolau diwygiedig yn berthnasol i gontractau hyd at £140,000 a byddent yn caniatáu i gontractau gael eu hysbysebu i fusnesau lleol, gan sicrhau na ellid gofyn dro ar ôl tro/yn unig i un grŵp o gwmnïau gyflwyno cynigion am gyfleoedd y cyngor. Diffiniwyd bod 'lleol' yn golygu Abertawe.

Gofynnwyd cwestiynau i'r Swyddog Cyflwyno a ymatebodd yn briodol. Roedd cwestiynau a thrafodaethau'n canolbwyntio ar: -

- Fandiau Contractau Diwygiedig yr awdurdod
- A yw cwmnïau lleol wedi croesawu'r newidiadau
- Hysbysu contractau'n well a'r posibilrwydd o wefan Gwerthu i Abertawe
- Y posibilrwydd sydd ar ôl i ddewis dyfynbrisiau gan ychydig o fusnesau - anawsterau a manteision y broses honno

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y diweddariad a defnyddioldeb y gweithdy.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**22 Cynllun Gwaith 2018 - 2019.**

Dywedodd y Swyddog Strategaeth a Pholisi y byddai'r Rheolwr Perfformiad a Chyflwyno Strategol yn cynnal adolygiad o waith y Pwyllgorau Datblygu Polisi (PDP) a thynnodd sylw at y ffaith y dylai'r gwaith polisi ymwneud â'r Cynllun Corfforaethol a'r Ymrwymiadau Polisi.

Byddai'r Swyddog Strategaeth a Pholisi'n aildrefnu'r gweithdy ar Gydgynhyrchu ac yn gwirio penodi Hyrwyddwr Cydgynhyrchu.

Ystyriodd y pwyllgor ddatblygu mwy o feysydd gwaith e.e. cyfranogaeth gyda'r llawlyfr staff, y byddent yn eu trafod yn uniongyrchol â'r Cadeirydd.

Penderfynwyd: -

1) Nodi'r diweddariad
2) Darparu dyddiad newydd ar gyfer y gweithdy ar Gyd-gynhyrchu
3) Penodi Hyrwyddwr Cydgynhyrchu.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.50 pm

**Cadeirydd**